**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024**

Cystadleuaeth 78 – Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau

# Machlud, Anni Llŷn

****Angen hepgor y trydydd a'r pumed pennill****

Welest ti'r haul yn pendwmpian,
yn dylyfu ei ên am hir?
Mae'n llithro'n araf, araf
O dan gwrlid mawr y tir.

Welest ti'r haul yn hepian,
a'i fochau'n goch wedi blino?
Mae'r gwynt yn cosi ei wyneb,
a sŵn y môr yn ei suo.

**Welest ti'r haul yn pendrymu,
yn rhwbio'i lygaid bob awr?
Mae hwiangerdd yr adar bach
yn tawelu nawr.

Welest ti'r haul yn swatio,
yn suddo i'w wely clyd,
gan ddweud 'Nos da' yn ddistaw
wrth holl blant y byd?

**Mae'n amser i chditha fynd i gysgu,
Ym myd y breuddwydion mawr.
Cysga dy ora, fy mach i,
cysga tan doriad y wawr.